

Mae'r hanner tymor hwn wedi hedfan heibio – ond ni allai'r 'Bwystfil o'r Dwyrain', hyd yn oed, atal ein disgyblion rhag llwyddo yn ystod y pum wythnos ddiwethaf. Mae'n bleser gennym gyflwyno cylchlythyr Ysgol Aberconwy, sy'n tynnu'ch sylw at lwyddiannau a chyflawniadau'r hanner tymor diwethaf. Mwynhewch eich gwyliau Pasg!

Merched Chweched Dosbarth yn Ennill @ Ffair Big Bang!

Ddydd Mawrth, Mawrth 13eg cynrychiolodd Alen, Kara, Mim, Nicole and Ruth Ysgol Aberconwy yn Ffair Big Bang Fair yn Venue Cymru, gan gymryd rhan yn Seremoni Wobrwyo EESW (Cynllun Addysg Peirianeg Cymru) sy'n annog pobl ifainc i ystyried peirianeg fel gyrfa.

Cafodd y merched gyfle i arddangos eu gwaith project, Dŵr & Dŵr Gwastraff Egni Niwtral, ac ar ben hynny enillasant y 'Project Gwerthfawrogiad Gorau o Ynni'. Da iawn chi, ferched!



Buom yn dathlu Diwrnod Dewi Sant...

Dathlodd disgyblion sy'n mynychu 'Caban', clwb siarad Cymraeg amser cinio, ddiwrnod Dewi Sant gyda bara brith cartref blasus!



Dyddiadau allweddol:

Llun Ebrill 9^{fed} April: Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd (ysgol ar gau)

Mawrth Ebrill 10^{fed}: Ysgol ar agor I ddisgyblion

Mawrth Mai 1^{af}: Noson Rieni Blwyddyn 10

Llun Mai 7^{fed}: Gŵyl y Banc (ysgol ar gau)

Mawrth Mai 8^{fed}: Arholiadau TGAU yn cychwyn

Llun Mai 14^{eg}: Arholiadau TAG yn cychwyn

Gwener Mai 25^{ain}: Diwrnod olaf cyn hanner tymor

Cofiwch fod dyddiadau allweddol I'w gweld ar ein gwefan hefyd...

Ydych chi wedi cyfarfod ein trigolion newydd?

Gofynnodd Sodexo am gymorth Edward Parkes, cerfiwr lleol, i drawsnewid boncyff coeden yn ddarn gwych o gelfyddyd pren. Am resymau iechyd a diogelwch, bu raid torri'r goeden wreiddiol ac yn ei lle y mae'r darn hwn o gerfio pren ar thema addysg.



Yn ogystal, mae Sodexo wedi plannu coeden Monterey Cypress arall i gymryd lle'r goeden wreiddiol, gan roi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd lleol hefyd!

Diolch i Sodexo am eu rhodd hyfryd i Ysgol Aberconwy.

Gawsoch chi gip ar Ysgol Aberconwy ar y teledu?




Gweithiodd Malin ac Isaac, disgyblion o Ysgol Aberconwy, gyda'r BBC ac ITV yn ddiweddar ar ddarn arbennig o newyddion a dynnai sylw at bwysigrwydd mynediad i'r anabl mewn ysgolion ledled Cymru, yn dilyn cyhoeddiad adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru!

Cymru, yn dilyn cyhoeddiad adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru!



Gwylwch eu fideos yma...

Mae ein disgyblion Chweched Dosbarth hefyd wedi bod yn brysur yn creu, cynhyrchu a golygu darnau o newyddion a ddarllledwyd yn fyw ledled y DU ar Ddiwrnod Newyddion Adroddiad Ysgol y BBC – Dydd Iau, Mawrth 15^{fed}!



Syniadau Mawr Cymru...

Ysbrydolwyd ein disgyblion Blwyddyn 9 ar ôl gwranddo ar bum entrepreneur lleol.

Yn ddiweddar, croesawyd Julie (Mobile Crèche), David (DfS4 Ltd), Sharon (Creating Enterprise), Jake (Fitzpatrick's Café) and Liz (Liz's Kids) i'r ysgol, lle cawsant gyfle i dreulio amser gyda'r disgyblion, yn trafod beth yw gofynion bod yn bennaeth arnoch chi'ch hun!



Disgyblion Ysgol Aberconwy yn Arddangos eu Talentau yn Aberystwyth



Yn ddiweddar, teithiodd grŵp o ddisgyblion i Aberystwyth i berfformio 'The Changing Room' fel rhan o Gynllun Connections.

Crewyd Cynllun Connections gan y Theatr Genedlaethol ar gyfer actorion ac actoresau ifanc i arddangos eu sgiliau actio.



Roedd y diwrnod yn llawn gweithgareddau i hybu eu sgiliau actio a thrwy gyfrwng yr ymarferion technegol cafodd y disgyblion gyfle gwerthfawr i weld sut mae rhannau eraill o'r theatr yn cael eu rheoli a'u rhedeg.

Yn ogystal, cawsant gyfle i gyfarfod â disgyblion o ysgolion a cholegau eraill, ac amser i fondio fel grŵp hefyd. Da iawn chi i bawb a gymerodd ran!

Cyngor E-Ddiogelwch i Rieni & Gwarcheidwaid...

Yn dilyn adborth, mae'n bleser gennym gyflwyno 'Cyngor E-Ddiogelwch i Rieni & Gwarcheidwaid i roi awgrymiadau i chi ar sut i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel ar-lein. Mae e-ddiogelwch yn derm sydd nid yn unig yn cyfeirio at y rhyngwrdd ond hefyd at y dulliau eraill mae pobl ifainc yn eu defnyddio i gyfathrebu drwy gyfryngau electronaidd, er enghraifft ffonau symudol, a dyma yw ffocws yr eitem gyntaf...

Fel y gwyddom, Mae gan y mwyafrif o blant, os nad pob plentyn oedran uwchradd, ffonau symudol, ac yn arbennig Ffonau Clyfar. Ond a ydych chi'n gwybod beth gallai eich plentyn gael mynediad iddo ar eu Ffôn Clyfar? Os oes gan eich plentyn iPhone, oeddech chi'n gwybod am y nodwedd rheolaeth rhieni? Mae nodwedd debyg ar gyfer ffonau Android hefyd.

Nodwedd rheolaeth rhieni iPhone

- Cliciwch settings
- General
- Restrictions
- Enable Restrictions
- Set a passcode
- Dewiswch yr ardaloedd rydych yn dymuno eu cyfyngu



Cadw'n ddiogel ar-lein



Diogelu gwybodaeth bersonol...

Mae gan ffonau clyfar fynediad i lawer o wybodaeth bersonol, er enghraifft ffotograffau, fideos a logins awtomatig a grëwyd ar gyfer ebyst, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Gweplyfr a hefyd, yn bwysicach na dim, gyfrifon banc.

A oes gan bob ffôn yn y tŷ gôd pasio, i reoli pwy sy'n cael mynediad i'r wybodaeth sy'n cael ei storio ar Ffôn clyfar?

Llwyddiannau ym maes Chwaraeon ...



Llongyfarchiadau i Ben Foggo a Sam Roberts ym Mlwyddyn 11, ar ddod yn gyntaf ac ail ym Mhencampwriaethau Codi Pwysau Ieuentid Prydain yn Luton ar Chwefror 3ydd! Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-rwyd merched Blwyddyn 7/8! Yn eu tymor cyntaf gyda'i gilydd, maen nhw wedi llwyddo i gyrraedd wyth olaf Cwpan Ysgolion Cymru!



Llongyfarchiadau i Lorenzo Cutts am ddod yn gyntaf yn ei gategori yn ei ras gyntaf y tymor hwn yn Llandysul Paddlers

